

DAVIES, JOHN (bu farw 1792), un o'r clerigwyr efengylaidd

Enw: John Davies
Dyddiad marw: 1792
Rhiant: John Davies
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: un o'r clerigwyr efengylaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Daniel Williams

Yr oedd yn gyfoed ac edmygwr [Daniel Rowland](#). Bu'n efrydydd yn Neuadd S. Edmund, Rhydychen, a bu'n rheithor plwyf Sharncote (nid ' Escourt'), Wiltshire, am 27 mlynedd (1765-92) (gweler *Memoir* [J. Owen](#) i [Daniel Rowland](#), 179). Adwaenai [Ddaniel Rowland](#), clywodd ef yn pregethu, a'i ddisgrifiad ef o'r pregethwr hwnnw ydyw'r gorau o ddigon ar glawr. Cyfieithodd i'r Saesneg wyth o bregethau [Daniel Rowland](#) (1772), a thrachefn dair eraill (1774).

Y mae'n bosibl mai ef yw'r John Davies c.1700 - 1792, sydd gan Foster yn *Alumni Oxonienses*.

Awdur

Y Parchedig Daniel Williams, (1878 - 1968)

Ffynonellau

J. Hughes, *Welsh reformers biographical sketches of eminent Welshmen foremost in promoting the cause of religion in Wales during the Tudor and Stuart dynasties containing also a memoir of Rowlands, Llangeitho, including his sermons* (Llundain 1867), 143

Edward Morgan, *Ministerial records: or Brief accounts of the great progress of religion, under the ministry of those eminent, learned, and pious ministers of God, the Rev. D. Rowlands, of Llangeitho, the Rev. W. Williams, of Pant-y-Celin, the Rev. D. Jones, of Llangan* (London 1840), 120-2

Foster, *Alumni Oxonienses*

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [308761875](#)

Wikidata: [Q20733366](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

